Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Prawf Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024 i 2025

Mae'n esbonio sut rydym yn defnyddio data personol a gesglir gan Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 16 Tachwedd 2018

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 3 Ionawr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Pa ddata personol a ddelir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio eich data?

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Hawliau'r unigolyn

Rhagor o wybodaeth



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid (Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru) gan Verian a Beaufort Research. Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth am safbwyntiau a bywydau pobl er mwyn helpu i ddatblygu polisïau a phenderfynu sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Bob blwyddyn, mae'r arolwg yn cynnal cyfweliadau dros y ffôn neu yn y cartref gyda thua 10,000 o bobl 16 oed a hŷn ar draws Cymru. Hefyd, mae adran fer ar-lein ar ddiwedd y cyfweliad i'r rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd.

Llywodraeth Cymru yw rheolydd y data ar gyfer yr ymchwil, ac mae'n cael yr wybodaeth a gesglir gan Verian a Beaufort Research. Bydd setiau data dienw sy'n cynnwys yr ymatebion i'r arolwg yn cael eu hanfon at Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Gyngor Celfyddydau Cymru ac ni fydd eich manylion cyswllt ond yn cael eu hanfon atynt lle rydych wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil bellach a allai gael ei chynnal ganddynt hwy neu Lywodraeth Cymru. Defnyddir yr wybodaeth at ddibenion ymchwil ac ystadegau yn unig, i gynhyrchu bwletinau ystadegol ac adroddiadau ymchwil. Mae'r bwletinau a'r adroddiadau yn ymwneud â phoblogaeth Cymru yn gyffredinol, nid â phobl unigol. Mae'r arolwg yn casglu data personol yn ogystal â data nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddata personol o dan GDPR y DU.

Gellir dod o hyd i gyhoeddiadau'r arolwg ar **dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol.**

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn rhywbeth cwbl wirfoddol. Er hynny, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig. Mae Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol a GIG Cymru yn defnyddio canlyniadau'r ymchwil i weithredu ar faterion sy'n effeithio arnoch chi a phobl yn eich ardal.

Yr unigolyn cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn Verian yw Stuart Grant.

Cyfeiriad e-bost: **Stuart.Grant@veriangroup.com**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhif ffôn: 020 7076 1600

Yr unigolyn cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn Beaufort Research yw Chris Timmins.

Cyfeiriad e-bost: **chris@beaufortresearch.co.uk**

Rhif ffôn: 029 2037 8565

## Pa ddata personol a ddelir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson y gellir ei defnyddio i adnabod y person hwnnw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddull adnabod.

Mae cyfeiriadau cyfranogwyr yn cael eu dewis ar hap o restr gyhoeddus y Post Brenhinol o'r holl gyfeiriadau yng Nghymru, ac anfonir llythyr at aelwydydd yn eich gwahodd i gymryd rhan. Yn y llythyr, gofynnir ichi ddarparu rhif ffôn ac os ydych yn dewis gwneud, eich enw a'ch cyfeiriad e-bost os ydych yn fodlon eu darparu ar y cam hwn.

Os byddwch yn dewis darparu eich enw, eich rhif ffôn neu'ch cyfeiriad e-bost drwy'r porth cofrestru ar-lein neu wrth gwblhau adran ar-lein yr arolwg, bydd hyn yn cael ei wneud drwy ddarparwr arolwg ar-lein o'r enw Forsta Plus. Bydd Forsta Plus yn casglu data rydych chi'n eu darparu drwy lenwi ffurflenni ar y wefan. Gall Forsta Plus gasglu gwybodaeth am eich cyfrifiadur, gan gynnwys gwybodaeth am y math o ddyfais, eglurder y sgrin, y system weithredu, y math o borwr a'r fersiwn, ar gyfer dibenion gweinyddu system, os ydynt ar gael. Defnyddir yr wybodaeth hon i gynhyrchu data ystadegol am weithredoedd pori defnyddwyr.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Os byddwch yn cysylltu â Verian, gallant gadw cofnod o'r ohebiaeth honno am hyd at chwe wythnos ar ôl ichi ymateb.

Bydd Verian yn ceisio cael rhifau ffôn sy’n gysylltiedig â’r cyfeiriadau a ddewisir ar hap, drwy ffynonellau sydd ar gael yn fasnachol o'r enw Sagacity a Data8, sy'n darparu cyfleuster i gyplysu rhifau ffôn â’r cyfeiriadau yn y sampl. Bydd cyfeiriadau hefyd yn cael eu cyplysu â chronfeydd data o rifau ffôn megis y llyfr rhifau ffôn ar-lein.

Pan ddarperir rhif ffôn gan aelwyd, bydd Verian a Beaufort Research yn ei ddefnyddio i gysylltu â chi i gynnal yr arolwg; fel arall bydd Verian a Beaufort Research yn defnyddio rhif ffôn y maent wedi’i gyplysu. Os nad oes rhif ffôn ar gael, bydd Verian a Beaufort Research yn anfon cyfwelydd i’r cyfeiriad i drefnu cyfweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn).

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil yn wirfoddol. Os nad ydych am gymryd rhan na chael negeseuon atgoffa gennym, dylech ymateb i'r llythyr yn eich gwahodd i gymryd rhan, a chaiff eich manylion eu dileu.

Os byddwch yn cymryd rhan yn yr arolwg, bydd Verian a Beaufort Research yn casglu'r wybodaeth bersonol ychwanegol ganlynol:

- Enw
- Cyfeiriad post llawn (sy'n cael ei ychwanegu at y set ddata pan fydd rhywun yn cysylltu â chi)
- Cyfeiriad e-bost
- Dyddiad geni
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Grŵp ethnig
- Crefydd
- Iechyd a salwch, gan gynnwys taldra a phwysau, ac a ydych yn feichiog

Gall cyfweliadau gael eu harsylwi neu eu recordio at ddibenion hyfforddi a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

monitro yn unig gan aelodau o’r tîm ymchwil yn Verian, Beaufort Research, a/neu Lywodraeth Cymru. Gall Verian a Beaufort Research wneud galwadau ffôn dilynol byr i gyfran fach o ymatebwyr er mwyn gwirio bod y cyfweliad wedi'i gynnal yn gywir. Gall ymatebwyr ddewis peidio â derbyn galwadau ffôn o'r fath.

Fel rhan o'r cyfweliad, gofynnir i ymatebwyr a fyddent yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil bellach. Os byddwch yn cytuno inni ailgysylltu â chi ar gyfer cymryd rhan mewn ymchwil bellach, bydd eich manylion yn cael eu cadw am dair blynedd. Bydd eich manylion yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru ac ni fyddant ond yn cael eu pasio i naill ai Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Gyngor Celfyddydau Cymru lle maent yn cynnal unrhyw ymchwil bellach.

Fel rhan o'r cyfweliad, gofynnir i ymatebwyr a hoffent gael copi o ganlyniadau'r arolwg. Os byddwch yn dymuno cael copi o ganlyniadau'r arolwg, bydd yn cael ei anfon atoch ar ôl i flwyddyn yr arolwg ddod i ben ac y cyhoeddir y canlyniadau. Bydd eich manylion yn cael eu dileu o fewn mis i gyhoeddi'r canlyniadau.

Cynigir taleb i ymatebwyr yr arolwg fel diolch am gymryd rhan yn yr arolwg. Os byddwch yn dewis cael y daleb wedi'i hanfon atoch drwy e-bost, bydd Verian yn ei hanfon. Os hoffech gael taleb bost, bydd Verian a Beaufort Research yn cofnodi eich manylion ac yn pasio eich enw a'ch cyfeiriad post yn ddiogel i Greens Digital, sy'n anfon y talebau. Ni fydd Greens Digital ond yn defnyddio eich manylion i anfon y daleb atoch ac ni fyddant yn rhannu eich manylion ag unrhyw un arall. Byddant yn dileu eich manylion yn ddiogel o fewn mis i anfon y daleb. Bydd Greens Digital yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel.

Os byddwch yn codi ymholiad neu gŵyn drwy Verian neu Beaufort Research ac yn rhoi data personol er mwyn gallu cael ymateb, ni fydd yr ymchwilydd ond yn anfon y cais ymlaen at y swyddog perthnasol a bydd yn ei ddileu flwyddyn ar ôl ei ddatrys. Ni fydd unrhyw ymholiadau neu gwynion yn rhan o'r data ymchwil ar unrhyw adeg. Os byddwch yn codi ymholiad yn uniongyrchol gyda Llywodraeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cymru, bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch mewn perthynas â'r gŵyn yn cael ei thrin fel y disgrifir yn **hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru.**

Cysylltir eich atebion i'r arolwg yn ddienw â ffynonellau data eraill fel rhan o'r banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) at ddibenion ymchwil anfasnachol yn unig (oni bai eich bod yn dweud nad ydych am i hynny ddigwydd).

Casgliad o ddata dienw am boblogaeth Cymru yw banc data SAIL, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol am storio'n ddiogel a defnyddio data dienw sy'n seiliedig ar unigolion ar gyfer ymchwil i wella iechyd, llesiant a gwasanaethau. Gall ymatebwyr ddewis peidio â chysylltu eu hatebion. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud hynny, neu ar gysylltu data, ewch i **Arolwg Cenedlaethol Cymru – Cysylltu data**.

Mae data dienw'r arolwg hefyd ar gael drwy Wasanaeth Data'r DU ar gyfer prosiectau ymchwil sy'n cael eu cyflawni gan ymchwilwyr achrededig, fel academyddion ac ymchwilwyr y GIG. Caiff data dienw'r arolwg eu cadw'n ddiogel ac at ddibenion ymchwil anfasnachol yn unig y cânt eu defnyddio. Ni fyddwn yn rhannu nac yn defnyddio eich gwybodaeth at unrhyw ddibenion masnachol na marchnata.

Mae data dienw'r arolwg hefyd yn cael eu rhannu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer prosiectau ymchwil anfasnachol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadw'r data yn ddiogel ac nid yw'n rhannu nac yn defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion eraill.

# Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yr Arolwg Cenedlaethol yn yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ymarfer hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Gelwir rhywfaint o’r data a gasglwn fel rhan o'r arolwg yn ‘ddata categori arbennig’ (er enghraifft gwybodaeth am ethnigrwydd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac iechyd) a’r sail gyfreithlon dros brosesu’r wybodaeth hon yw ei bod at ddibenion ystadegol neu ymchwil.

Mae cymryd rhan yn rhywbeth cwbl wirfoddol. Er hynny, mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig gan eu bod yn ein galluogi i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn.

Mae'r wybodaeth a gesglir yn yr arolwg, er enghraifft, yn cael ei defnyddio i helpu i ddeall pethau fel:

- pa mor fodlon yw pobl ar eu hardal leol, gan gynnwys materion yn eu hardal leol;
- sut y gallwn helpu pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd i gael mynediad ati ac i deimlo'n hyderus wrth ei defnyddio; ac
- a yw pobl yn ei chael hi'n hawdd gwneud apwyntiadau yn y feddygfa, ac os nad ydynt, pa rwystrau penodol y mae angen inni fynd i'r afael â hwy.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Caiff yr wybodaeth bersonol a roddir i Verian a Beaufort Research ei storio bob amser ar weinydd diogel. Dim ond nifer bach o ymchwilwyr sy’n gweithio ar y prosiect fydd yn cael gweld y data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd Verian a Beaufort Research yn defnyddio'r data hyn. Mae Verian wedi’i achredu fel cwmni sy’n bodloni safon ryngwladol diogelwch gwybodaeth ISO27001 ac mae’n cynnal profion hacio allanol. Yn yr un modd, mae Beaufort Research wedi’i achredu fel cwmni sy’n bodloni safonau Cyber Essential Plus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Wrth gynnal arolygon, ac er mwyn ichi fynegi diddordeb mewn cymryd rhan, mae Verian a Beaufort Research yn defnyddio rhaglen feddalwedd o'r enw Forsta Plus i gasglu data gan gynnwys ymatebion i'r arolwg a manylion cyswllt. Rydym wedi sicrhau bod Forsta Plus yn cydymffurfio â GDPR y DU ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir drwy'r feddalwedd.

Mae Verian yn is-gontractio rhywfaint o'r gwaith prosesu a pharatoi data i gwmni ar wahân, sef BMR. Mae'n bosibl y bydd eich data personol, gyda'ch enw a'ch manylion cyswllt wedi'u dileu, yn cael eu prosesu gan BMR. Bydd BMR yn gweithio o fewn amgylchedd rhithwir diogel Verian, fel na fydd unrhyw ddata'n cael eu trosglwyddo i BMR.

Mae gan Verian, Beaufort Research, BMR a Greens Digital weithdrefnau i ddelio ag unrhyw achosion lle'r amheuir bod rheolau diogelwch data wedi'u torri. Os ceir amheuaeth bod rheolau diogelu data wedi cael eu torri sy'n effeithio ar eich gwybodaeth, bydd Verian neu Beaufort Research yn adrodd am hyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn rhoi gwybod ichi ac i unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol inni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw ar weinyddion diogel. Mae ffolder wedi'i chreu ar gyfer y prosiect hwn a dim ond tîm ymchwil yr Arolwg Cenedlaethol sydd â mynediad ati. Bydd eich manylion cyswllt ac unrhyw ddata y gellir eu defnyddio i'ch adnabod a ddarperir gennych yn cael eu storio yn y ffolder hon sydd â mynediad cyfyngedig, ar wahân i setiau data'r arolwg. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig ac i ddod i gasgliadau am y boblogaeth gyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar bobl unigol.

Adroddir ar ganlyniadau'r arolwg mewn modd dienw. Ni fydd adroddiadau'n cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n golygu bod modd adnabod unigolion. Cyhoeddir adroddiadau yn **www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd data dienw'r arolwg ar gael i ymchwilwyr drwy Wasanaeth Data'r DU. Gall ymchwilwyr a gaiff eu cydnabod yn swyddogol, fel academyddion ac ymchwilwyr y GIG a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ofyn am gael gweld data nad ydynt ar gael drwy Wasanaeth Data'r DU. Bydd Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru yn craffu ar y ceisiadau hyn ac – os byddant yn cael eu cymeradwyo – byddant yn dod o dan Gytundebau Gweld Data a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r trefniadau ffurfiol hyn yn gosod gofynion caeth ar gyfer prosesu a diogelu data personol.

Pan fydd Llywodraeth Cymru neu ei phartneriaid yn yr arolwg, Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal ymchwil ddilynol i gefnogi'r dibenion a amlinellir uchod, gall trydydd parti achrededig wneud y gwaith hwn (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori), a fyddai'n cael y manylion cyswllt ar gyfer unrhyw un a ddewisir ar gyfer yr ymchwil sydd wedi cytuno inni ailgysylltu â hwy ynghylch ymchwil bellach. Dim ond o dan gontract y bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

# Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd Verian a Beaufort Research yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a byddant yn dileu unrhyw ddata personol, gan gynnwys eich manylion cyswllt, yn unol â'r amserlen ganlynol:

- bydd unrhyw recordiadau o gyfweliadau a ddefnyddir fel rhan o hyfforddiant yn cael eu dileu o fewn 90 diwrnod i gynnal y cyfweliad, a byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion sicrhau ansawdd yn unig gan y tîm ymchwil.
- bydd data personol sy'n cael eu storio yn systemau Forsta Plus yn cael eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

dileu cyn pen mis o ddarparu’r data i Lywodraeth Cymru.
- caiff gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â chwyn i Verian neu Beaufort Research ei dileu o fewn blwyddyn i'r gŵyn gael ei datrys.
- caiff unrhyw ddata sy’n weddill eu dileu o fewn chwe mis i gymeradwyo’r set ddata.

Cynhelir prif waith maes yr arolwg rhwng mis Ebrill bob blwyddyn a mis Mawrth y flwyddyn ganlynol. Cymeradwyir y set ddata o fewn chwe mis i’r cyfnod gwaith maes ddod i ben, a bydd data yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mehefin.

Os byddwch yn dewis cael taleb bost, bydd y cwmni cyflenwi talebau Greens Digital yn cadw eich manylion cyswllt ar ôl y cyfweliad i anfon hon atoch a byddant yn dileu eich manylion cyswllt o fewn mis i anfon y talebau.

Bydd Verian yn darparu’r set ddata lawn i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y data a restrir uchod, yn ogystal â manylion cyswllt ar gyfer yr ymatebwyr hynny sydd wedi cytuno inni ailgysylltu â hwy/neu sy’n dymuno cael copi o ganlyniadau’r arolwg. Mae canlyniadau’r arolwg yn cael eu cadw ar wahân i’r rhestr o bobl sydd wedi cytuno inni ailgysylltu â hwy neu sydd wedi gofyn am gopi o’r canlyniadau (ac mae’r rhain yn ddwy restr ar wahân hyd yn oed os byddwch wedi cytuno i’r ddau). Bydd Llywodraeth Cymru yn dileu unrhyw wybodaeth a fydd yn golygu bod modd adnabod person yn y ffyrdd canlynol:

- ar gyfer canlyniadau'r arolwg, bydd Llywodraeth Cymru yn dileu eich enw a'ch dyddiad geni o fewn tair blynedd i gymeradwyo'r set ddata. Bydd y set ddata ddienw sy'n deillio o hynny sy'n cynnwys peth o'r wybodaeth a restrir uchod, ond nid unrhyw wybodaeth y gellir eich adnabod drwyddi, yn cael ei chadw yng nghanlyniadau'r arolwg ar ôl y dyddiad hwn.
- pan fyddwch wedi cytuno inni ailgysylltu â chi, bydd Llywodraeth Cymru yn dileu eich enw, eich rhif ffôn, eich cyfeiriad post, eich cyfeiriad e-bost a'ch dyddiad geni o'r rhestr ailgysylltu ar wahân o fewn tair blynedd i gymeradwyo'r set ddata.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- pan fyddwch wedi gofyn am gopi o ganlyniadau'r arolwg, bydd Llywodraeth Cymru yn dileu eich manylion cyswllt o'r rhestr ar wahân o'r rheini sy'n dymuno cael copi o fewn mis i gyhoeddi'r canlyniadau.

Bydd gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â chwyn i Lywodraeth Cymru yn cael ei thrin fel y disgrifir yn **hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru.**

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd fynediad at rywfaint o'r data personol, gan gynnwys enw, cyfeiriad post, rhyw a dyddiad geni, am gyfnod o dri mis, er mwyn caniatáu cysylltu data â banc data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe.

# Hawliau'r unigolyn

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r arolwg hwn:

- cael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- gofyn inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar unrhyw brosesu data (o dan amgylchiadau penodol);
- gofyn i'ch data gael eu ‘dileu’ (o dan amgylchiadau penodol);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: **www.ico.org.uk**

# Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data a roddir at ddibenion yr astudiaeth hon, neu os ydych am arfer eich hawliau drwy ddefnyddio GDPR y DU, cysylltwch â'r tîm isod:

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol

Cyfeiriad e-bost: **arolygon@llyw.cymru**
Rhif ffôn: 0300 025 2021

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

E-bost: **SwyddogDiogeluData@llyw.cymru**

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-hysbysiad-prefiatrwydd-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.